# Trefniadau Archwilio Cynghorau Tref a Chymuned Cymru yn y Dyfodol

Blwyddyn archwilio: O 2020-21 ymlaen

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2063A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'm hymgynghoriad diweddar am y trefniadau i archwilio cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol, ac mae'n nodi'r trefniadau archwilio a fydd ar waith i archwilio cyfrifon 2020-21 a'r blynyddoedd canlynol.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ers 2008, rwyf wedi pennu diffygion sylweddol a systemig ar draws y sector o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu nad ydynt yn cael eu pennu yn ystod archwiliad hyd nes bod gwaith archwilio manylach yn cael ei gyflawni, ac mae hyn yn peri imi ddod i'r casgliad bod angen newid y trefniadau archwilio 5

O 2020-21 ymlaen, bydd fy nhrefniadau i archwilio cynghorau tref a chymuned Cymru yn cynnwys rhaglen archwilio dair blynedd i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol ac i roi sicrwydd archwilio digonol am gost sy'n rhesymol i'r cynghorau 6

Y camau nesaf 7

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 8

Atodiad 2 – ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori 9

Atodiad 3 – materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad 11

Atodiad 4 – trefniadau archwilio ar sail cylch tair blynedd o 2020-21 ymlaen 14

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

### Mae’n ofynnol i gynghorau cymuned Cymru baratoi cyfrifon a’u cyflwyno i’w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Mae’r gofyniad am i gynghorau cymuned baratoi cyfrifon a’u cyflwyno i’w harchwilio wedi’i bennu mewn deddfwriaeth.

2 Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn datgan bod rhaid i bob corff llywodraeth leol baratoi ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a sicrhau bod y cyfrifon hynny’n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol). Mae adran 13 hefyd yn datgan bod rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol archwilio’r cyfrifon.

### Mae archwilio’n bwysig oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli a’i ddiogelu’n effeithiol

3 Yn ogystal â bodloni’r gofynion cyfreithiol i archwilio datganiadau cyfrifyddu cynghorau cymuned, mae gwaith archwilio’n rhoi sicrwydd o ran y modd y mae cynghorau wedi rheoli eu harian.

4 Ar ôl archwilio’r datganiadau ariannol, cyhoeddir barn annibynnol am y modd y cafodd y datganiadau eu paratoi a pha un a ydynt yn rhoi darlun priodol o sefyllfa ariannol y corff yn unol â gofyniad y fframwaith cyfrifyddu perthnasol.

5 Mae archwilio cyrff cyhoeddus yn bwysig o ran sicrhau bod y rheini sy’n gyfrifol am drin a thrafod arian cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif am y modd y maent yn defnyddio’r arian hwnnw. Mae archwilio cyhoeddus yn cryfhau atebolrwydd o ran yr aelodau etholedig neu benodedig sy’n penderfynu sut i ddyrannu adnoddau ac o ran buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaethau, trethdalwyr, a’r gymuned ehangach. Mae archwilio cyhoeddus cadarn hefyd yn rhoi sicrwydd o ran trefniadau’r cyrff i reoli eu harian yn briodol, gan gynnwys eu trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac i ddiogelu arian cyhoeddus.

### Mae fy nghyfrifoldebau archwilio fel Archwilydd Cyffredinol a nodir yn Neddf 2004 yn berthnasol i bob cyngor cymuned

6 Mae Deddf 2004 yn nodi fy nghyfrifoldebau fel Archwilydd Cyffredinol dros archwilio cyfrifon cynghorau cymuned. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adrannau 17 a 23: dyletswyddau cyffredinol i sicrhau bod y cyfrifon wedi’u paratoi’n briodol, i roi barn ar y cyfrifon ac i’m bodloni fy hun bod y cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol;

- Adran 22: dyletswydd i ystyried, er budd y cyhoedd, a ddylwn baratoi adroddiad am unrhyw fater sy'n dod i sylw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod yr archwiliad; ac
- Adrannau 30 a 31: dyletswydd i wneud trefniadau i roi cyfle i etholwyr ofyn cwestiynau neu wrthwynebu'r cyfrifon.

7 Rhaid i'r trefniadau archwilio fod yn ddigonol i sicrhau bod modd imi gyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Ers 2008, rwyf wedi pennu diffygion sylweddol a systemig ar draws y sector o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu nad ydynt yn cael eu pennu yn ystod archwiliad hyd nes bod gwaith archwilio manylach yn cael ei gyflawni, ac mae hyn yn peri imi ddod i'r casgliad bod angen newid y trefniadau archwilio

8 Ers 2008, rwyf wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ddiffygion llywodraethu cyffredin a bennwyd yn ystod y broses o archwilio cynghorau tref a chymuned. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at wendidau systemig ar draws y sector ac at y ffaith bod gormod o gynghorau'n methu â bodloni'r safonau gofynnol y disgwylir iddynt eu bodloni. Er bod rhai meysydd wedi gwella, mae cryn le i wella ar draws y sector o hyd.

9 Rydym wedi ymgymryd â gwaith archwilio manylach mewn cynghorau lle mae archwilwyr wedi pennu pryderon mawr. O ganlyniad i'r gwaith hwn, bu imi gyhoeddi 18 adroddiad er budd y cyhoedd yn ystod 2018 a 2019. Cewch hyd i ddolenni at yr adroddiadau hyn yn **Atodiad 1**.

10 Ymhlith y problemau a bennwyd yn yr adroddiadau hyn er budd y cyhoedd mae:

- Cynghorau heb gofnodion cyfrifyddu, cofnodion cyfrifyddu gwallus/anghyflawn, a chyfrifon heb eu paratoi'n gywir
- Trefniadau rheoli mewnol a rheoli ariannol gwael, gan gynnwys achosion lle na chafodd prosesau awdurdodi gwariant priodol cynghorau eu dilyn
- Methiant i gyfrif am y cynllun Talu Wrth Ennill a arweiniodd at gostau ychwanegol i'r cynghorau
- Trefniadau gwael i bennu'r gyllideb a threfniadau annigonol i fonitro arian
- Methiant i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y cynghorau eu hunain a arweiniodd at drefniadau diffygiol i gaffael gwasanaethau ac at fethu â sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian
- Gordaliadau i glercod
- Trefniadau llywodraethu a phenderfynu gwael a arweiniodd at wariant anghyfreithlon

11 Mae'r problemau archwilio a nodir yn yr adroddiadau hyn yn aml yn broblemau sy'n bodoli ers tro. Fodd bynnag, gan fod cwmpas y trefniadau archwilio presennol yn gul, ni chafodd y problemau hyn eu pennu'n brydlon, ac nid oedd modd eu pennu'n brydlon. Mae angen cynnal archwiliad manylach a chadarnach i fynd ati'n gynnar i bennu problemau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo cynghorau i fynd ati'n gynnar i wella eu trefniadau, yn hytrach na gadael i broblemau barhau, a dwysáu o bosibl, dros gyfnod hir.

# O 2020-21 ymlaen, bydd fy nhrefniadau i archwilio cynghorau tref a chymuned Cymru yn cynnwys rhaglen archwilio dair blynedd i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol ac i roi sicrwydd archwilio digonol am gost sy'n rhesymol i'r cynghorau

12 Ym mis Ionawr 2020, bu imi ymgynghori ar gynigion i newid y drefn o archwilio cynghorau tref a chymuned Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn cyfres o wyth cwestiwn.

13 Daeth cyfanswm o 136 o ymatebion i law; gwnaed 83% (113) o'r ymatebion hynny ar ran cynghorau. Mae hyn yn gyfwerth â 15% o holl gynghorau Cymru. Daeth ymatebion i law gan glercod, cynghorwyr, trigolion lleol, archwilwyr mewnol, a chyfrifyddion proffesiynol sy'n gweithredu ar ran nifer o gynghorau ledled Cymru.

14 Ceir crynodeb o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau ymgynghori yn **Atodiad 2**. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r trefniadau archwilio arfaethedig. Fodd bynnag, cododd rhai pryderon yn fynych yn yr ymatebion. Nodir y pryderon hyn, a'm hymateb iddynt, yn **Atodiad 3**.

15 Yn sgil yr ymgynghoriad hwn, rwyf wedi penderfynu y bydd fy nhrefniadau archwilio'n cynnwys rhywfaint o waith i brofi trafodiadau, a hynny o'r archwiliad o gyfrifon 2020-21 ymlaen. Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar drafodiadau, bydd yr archwilwyr yn archwilio cyfrifon cyngor ac yn olrhain trafodiadau bob cam i'r cofnodion gwreiddiol, gan gadarnhau a yw'r cyfrifon yn gyflawn ac yn gywir. O wneud hyn, bydd yn rhoi llawer mwy o sicrwydd am gyfrifon cynghorau nag a roddir ar hyn o bryd, a bydd yn mynd i'r afael â llawer o'r problemau mawr a bennwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

16 I wneud hyn ym mhob cyngor bob blwyddyn, byddai angen neilltuo cryn dipyn o amser i bob archwiliad ac, o gofio bod llawer o'r cynghorau'n fach, ni fyddai'n gymesur gwneud hynny.

17 I sicrhau bod y trefniant, yn ei gyfanrwydd, yn gymesur i gynghorau ag incwm a gwariant o lai na £2.5 miliwn, byddwn yn cynnal cyfuniad o archwiliadau sy'n seiliedig ar drafodiadau ac archwiliadau mwy cyfyngedig ar gylch tair blynedd. O ddefnyddio cylch tair blynedd, bydd modd pennu problemau o fewn cyfnod

cymharol fyr. Bydd cynghorau hefyd yn gwybod y byddant yn destun gwaith craffu manylach yn rheolaidd.

18 Nid yw'r dull cylchol hwn heb risg. Mae'n debygol na fydd rhai problemau'n dod i'r amlwg hyd nes inni gynnal archwiliad sy'n seiliedig ar drafodiadau. Rwy'n tybio bod cylch tair blynedd yn cydbwyso'r risgiau hyn â'r risg gyffredinol i'r pwrs cyhoeddus a'r gost archwilio.

19 Felly, mae'r trefniadau yr wyf wedi penderfynu eu defnyddio i archwilio cynghorau tref a chymuned o gyfrifon 2020-21 ymlaen yn seiliedig ar gylch tair blynedd a fydd yn cynnwys dau archwiliad dan y weithdrefn gyfyngedig ac un archwiliad sy'n seiliedig ar drafodiadau ym mhob cyngor. Bydd yr archwiliadau sy'n seiliedig ar drafodiadau yn cael eu gwasgaru ar draws tair blynedd gyntaf y trefniadau newydd.

20 Ceir crynodeb o'r dull archwilio yn **Atodiad 4**.

21 Yn ogystal â chynnal archwiliad sy'n seiliedig ar drafodiadau unwaith bob tair blynedd, bydd yr archwilwyr yn dal i ymgymryd â gwaith archwilio ychwanegol os tybir bod angen iddynt wneud hynny. Ymhlith y sefyllfaoedd lle y gall fod angen ymgymryd â gwaith ychwanegol mae'r enghreifftiau hyn:

- Pan ddaw materion i sylw'r archwilydd yn ystod archwiliad dan y weithdrefn gyfyngedig e.e. drwy ohebiaeth, gwrthwynebiadau neu faterion sy'n codi yn ystod yr archwiliad
- Pan fydd archwiliad sy'n profi trafodiadau yn tynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder i'r archwilwyr
- Pan fydd cynghorau'n methu â chydweithredu â'r tîm archwilio
- Pan fydd problemau mawr wedi'u nodi mewn blynyddoedd blaenorol
- Pan fydd cyngor yn methu â pharatoi ei gyfrifon yn brydlon

# Y camau nesaf

22 Ym mis Tachwedd 2020, byddaf yn cynnal gweminar i roi mwy o fanylion i'r cynghorau am y ffordd y bydd y trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol. Mae staff Archwilio Cymru yn trafod y trefniadau â chynrychiolwyr Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i arfogi'r sefydliadau hynny i gynorthwyo'r cynghorau pan fydd y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno.

23 Mae Archwilio Cymru hefyd yn ystyried sut y bydd yn cynnal yr archwiliadau. Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i bob cyngor erbyn mis Ionawr 2021.

24 Byddwn yn archwilio cyfrifon 2020-21 yn hwyr yn yr haf 2021. Rydym yn disgwyl y bydd ffioedd dwy o'r tair blynedd sy'n rhan o'r cylch archwilio fwy neu lai yr un fath â'r ffioedd archwilio presennol. O ran y flwyddyn archwilio pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith manylach, rydym yn disgwyl y bydd y ffi archwilio ychydig yn uwch. Mae Archwilio Cymru wrthi'n paratoi model ffioedd i gefnogi'r dull hwn o weithio.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Arddangosyn 1: adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol**

| Adroddiadau blynyddol am reolaeth ariannol a llywodraethu |
|---|
| Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18 |
| Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru |
| Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17 |
| Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned 2015-16 |
| Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2014-15 |

**Arddangosyn 2: adroddiadau er budd y cyhoedd**

| Adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2018 | Adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2019 |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Chwitffordd | Cyngor Cymuned Bodorgan |
| Cyngor Cymuned Cadfarch | Cyngor Tref Bwcle |
| Cyngor Cymuned Tirymynach | Cyngor Tref Cei Connah |
| Cyngor Cymuned Llanwnnen | Cyngor Cymuned Cynwyd |
| Cyngor Cymuned Penalun | Cyngor Tref Glyn-nedd |
| Cyngor Cymuned Glantwymyn | Cyngor Cymuned Llanfairpwll |
| Cyngor Cymuned Llanbrynmair | Cyngor Cymuned Llanfrothen |
| | Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen |
| | Cyngor Cymuned Maenclochog |
| | Cyngor Cymuned y Mwmbwls |
| | Cyngor Tref Penmaenmawr |
| | Cyngor Cymuned Rhosyr |

# Atodiad 2

## Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori

**Arddangosyn 3: ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori**

| Y cwestiynau ymgynghori | | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Y trefniadau presennol a'r angen am newid** | | | | |
| C1 | Rwyf i o'r farn y gall y trefniadau presennol ar gyfer archwilio cynghorau cymuned arwain at nodi'n rhy hwyr y math o faterion archwilio a amlygwyd yn yr adroddiadau diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru er budd y cyhoedd. A ydych yn cytuno? | **60%** | **25%** | **15%** |
| **Cynigion ar gyfer system archwilio newydd** | | | | |
| C2 | A ydw i wedi nodi'r egwyddorion cynllunio cywir ar gyfer y trefniadau archwilio arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned? | **83%** | **17%** | |
| C3 | A yw'r trefniadau archwilio arfaethedig hyn ar gyfer cynghorau cymuned yn cyflawni'r egwyddorion cynllunio yr wyf wedi eu nodi? | **83%** | **17%** | |
| C4 | A ydych yn cytuno y dylai'r trefniadau archwilio arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned ymgorffori profion manwl ar drafodiadau? | **64%** | **36%** | |
| C5 | A oes gweithdrefnau gwahanol y dylid ystyried eu cynnwys yn y trefniadau archwilio arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned? | **63%** | **37%** | |
| C6 | A ydych yn cytuno y dylai'r trefniadau archwilio arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned ddilyn rhaglen gylchol dros gyfnod o dair blynedd? | **73%** | **27%** | |
| C7 | A ydych yn cytuno y byddai cyhoeddi adroddiadau blynyddol ac astudiaethau cenedlaethol achlysurol o fudd i'r sector? | **94%** | **6%** | |

| Y cwestiynau ymgynghori | | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| C8 | A oes unrhyw feysydd penodol sy'n achosi pryder lle yr ydych yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol petai'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth genedlaethol neu'n cyflwyno digwyddiad Cyfnewid Arfer Da (megis gweminar)? | **55%**[1] | **45%** | |

[1] Mae Archwilio Cymru'n ystyried y meysydd a awgrymwyd gan yr ymatebwyr i bennu'r rheini a fyddai'n addas ar gyfer astudiaeth genedlaethol neu ddigwyddiad drwy'r Gyfnewidfa Arfer Da.

# Atodiad 3

## Materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

### Bydd y trefniadau newydd yn effeithio'n anghymesur ar gynghorau bach

Mae cyfran fawr o gynghorau cymuned Cymru'n gynghorau bach sy'n gwario llai na £10,000 i £15,000 y flwyddyn. Mae'r risg o golledion yn y cynghorau bach hyn yn fach, a gellir dadlau dros eu heithrio rhag cael archwiliad neu dros i'r archwiliad gael ei gynnal gan yr awdurdod unedol lleol.

Bydd y trefniadau archwilio a nodir yn y papur ymgynghori'n rhoi baich gormodol ar y cynghorau hyn. Dylid teilwra'r trefniadau archwilio ar sail y praesept a godir gan gynghorau, gan ddefnyddio cylchoedd archwilio gwahanol gan ddibynnu ar faint y cyngor a chanlyniadau archwiliadau blaenorol.

Mynegodd rhai cynghorau bryderon am y cynnydd yn y ffioedd archwilio ers 2014-15, gan ofyn a fyddai'r trefniadau diwygiedig yn ychwanegu at y baich.

#### Ymateb

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i bob cyngor yng Nghymru baratoi ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon hynny i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni all yr Archwilydd Cyffredinol eithrio cynghorau o'r fath rhag y gofyniad i gael archwiliad statudol.

Mae adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol am reoli ariannol a llywodraethu wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes gan lawer o gynghorau bach drefniadau rheoli arian a llywodraethu priodol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i atal ac i ganfod twyll a cholledion eraill.

Mewn llawer o'r cynghorau bach, nid oes llawer o gyfle i wahanu dyletswyddau i leihau'r risg o golledion oherwydd twyll, ac mae adroddiadau blaenorol er budd y cyhoedd wedi tynnu sylw at rai o'r diffygion a bennwyd gan archwilwyr. Mae mwy o risg o ddiffygion yn y cyrff bach hyn.

Bwriedir i'r trefniadau diwygiedig fod yn gymharol syml a dealladwy. O gyflwyno trefniadau cymhleth sy'n cynnwys sawl haen o archwiliadau a chylchoedd archwilio gwahanol, byddai mwy o risg o ddrysu'r cynghorau a byddai hefyd yn creu baich gweinyddol.

Codir ffioedd archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddir y Cynllun Ffioedd bob blwyddyn. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi na chaiff y ffioedd archwilio fod yn fwy na chost lawn cynnal yr archwiliad. Ers 2014-15, cafodd ffioedd archwilio eu codi ar y sail hon. Gall y trefniadau newydd beri i'r ffioedd archwilio gynyddu ym mhob blwyddyn pan fydd archwiliad sy'n seiliedig ar brofi trafodiadau'n cael ei gynnal. Fodd bynnag, bydd yr archwilwyr yn ystyried maint y cyngor pan fyddant yn ystyried hyd a lled y gwaith archwilio a gaiff ei gyflawni.

Mae Archwilio Cymru'n llunio cyfres o adnoddau a gweithdrefnau archwilio i sicrhau bod yr holl waith archwilio'n cael ei gyflawni mor effeithlon â phosibl. Gall cynghorau hefyd helpu i sicrhau bod y broses archwilio mor effeithlon â phosibl drwy sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth a'r dogfennau y mae eu hangen ar gyfer yr archwiliad yn brydlon a'u bod yn cadw'u cyfrifon a'u cofnodion eraill yn briodol.

## Dylai cynghorau gael archwiliad mewnol sy'n cyflawni llawer o'r gwaith y cynigir ei wneud drwy archwiliad allanol

Mae archwiliad mewnol blynyddol sy'n cynnwys profion o'r trafodiadau'n ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon a godir gan archwilwyr allanol, ac mae'n dileu'r angen i archwilwyr allanol brofi trafodiadau. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai archwiliad mewnol o'r fath fod yn orfodol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr a fyddai'r dull archwilio allanol arfaethedig yn arwain at ddyblygu gwaith, drwy gyflawni gwaith a wnaed gan yr archwilydd mewnol eisoes.

### Ymateb

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i bob cyngor gynnal system archwilio mewnol effeithiol a digonol i archwilio ei gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaethau mewnol.

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am archwilio mewnol yn y sector yn nodi nad yw pob cyngor yn gwneud trefniadau i gael archwiliad mewnol. Mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol am reoli ariannol a llywodraethu'n cyfeirio at anghysondebau rhwng canfyddiadau'r archwilydd mewnol a chanfyddiadau'r archwilydd allanol sy'n arwain at farn archwilio amodol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn achos rhai cynghorau lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd. Mewn rhai achosion, er bod yr archwilydd mewnol wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol i gynghorau, mae'n amlwg nad oedd y broses archwilio mewnol yn ddigonol nac yn effeithiol.

## Nid yw'r problemau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiadau er budd y cyhoedd yn gyffredin ar draws y sector

Mae nifer yr adroddiadau er budd y cyhoedd yn fach, ac nid yw'r problemau a nodir ynddynt yn gyffredin ar draws pob cyngor. Byddai'n fwy cymesur targedu'r cynghorau lle ceir problemau yn hytrach na chynyddu'r mesurau archwilio ar draws y sector cyfan.

### Ymateb

Fel arfer, caiff gwaith archwilio ei gyflawni gan gwmnïau sy'n gweithio i Archwilio Cymru. Fodd bynnag, pan fydd problemau mawr yn codi mewn cyngor, bydd Archwilio Cymru'n ymgymryd â gwaith ychwanegol yn fewnol. O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol hwn, cyhoeddwyd adroddiadau er budd y cyhoedd o ran 25 cyngor ledled Cymru ers 2008. Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a ddylai gyhoeddi adroddiadau er

budd y cyhoedd o ran 14 cyngor arall. Mae Archwilio Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith archwilio ychwanegol mewn 30 cyngor arall.

Mae hyn yn gyfwerth â bron i 10% o holl gynghorau Cymru. Ar ben hyn, cafodd y materion a nodwyd yn yr adroddiadau er budd y cyhoedd eu nodi mewn adroddiadau archwilio amodol mewn cynghorau eraill hefyd.

## Mae angen mwy o hyfforddiant ar glercod a chynghorwyr

Nid yw llawer o gynghoroau ond yn cyflogi un clerc rhan-amser. Nid oes llawer o hyfforddiant na chymorth arall ar gael. Dylai hyfforddiant fod ar gael am ddim i'r holl glercod i sicrhau eu bod yn deall y gofynion sylfaenol sy'n berthnasol i bob cyngor.

### Ymateb

Mae gan Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol bwyllgorau ardal ledled Cymru. Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion cyfredol.

Mae Un Llais Cymru'n darparu rhaglen hyfforddi y gall pob cyngor fanteisio arni. Cynhelir cyrsiau ledled Cymru ac maent yn trafod testunau amrywiol, gan gynnwys gweithdrefnau ariannol.

Mae staff Archwilio Cymru'n mynd i gynadleddau'r sector gydol y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac i egluro sut y gall cynghorau fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan archwilwyr allanol.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun bwrsariaeth ar gyfer hyfforddiant yn y sector, ac mae wrthi'n ystyried sut y gall estyn y cynllun hwn.

## Dylid cynnal profion sy'n seiliedig ar drafodiadau yn lleol yn hytrach nag anfon nifer fawr o ddogfennau i swyddfeydd Archwilio Cymru

Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn ar safle'r cyngor i sicrhau nad oes angen coladu papurau gweithio manwl a swmpus a'u cyflwyno i gorff allanol.


### Ymateb


Nid yw'n debygol y bydd modd cwblhau'r holl brofion sy'n seiliedig ar drafodiadau ar safleoedd cynghorau. Yn wir, nid oes gan nifer fawr o'r cynghorau eu safleoedd eu hunain, ac mae eu clercod yn gweithio gartref. Mae Archwilio Cymru wrthi'n ystyried gwahanol fodelau i gyflawni'r holl waith archwilio mewn cynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, bydd archwiliadau sy'n seiliedig ar drafodiadau yn cael eu cynnal ar lefel leol ac ni fydd gofyn i'r cynghorau anfon eu holl ddogfennau i un o swyddfeydd canolog Archwilio Cymru.

# Atodiad 4

## Trefniadau archwilio ar sail cylch tair blynedd o 2020-21 ymlaen

**Arddangosyn 4: trefniadau archwilio cynghorau tref a chymuned Cymru yn y dyfodol**




Dull o asesu risg
Asesu cydymffurfiaeth ar sail hunanardystiad ac adolygiad o ddogfennau
Cynllunio’r archwiliad ar sail risg
Cynllunio’r archwiliad ar sail risg
Cydymffurfiaeth lwyr neu fân achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth
Diffyg cydymffurfiaeth sylweddol neu wybodaeth ychwanegol wedi dod i law
Dull archwilio
Adolygiad dadansoddol, gwaith eglurhaol
Adolygiad dadansoddol, gwaith eglurhaol a/neu brofion manwl mewn meysydd lle na cheir cydymffurfiaeth
Adolygiad dadansoddol
Gwirio trafodiadau, balansau a datgeliadau
Adolygiad dadansoddol
Gwirio trafodiadau, balansau a datgeliadau
Barn archwilio
Barn archwilio sicrwydd cyfyngedig

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.